# Erthyglau Go Iawn
## Taflen Annog ar gyfer Athrawon

Rhowch erthygl newyddion lleol neu Erthygl Go Iawn a ddarperir (12c) i bob grŵp. Gofynnwch i bob grŵp ddarllen yr erthygl a roddwyd iddynt, a thrafod y cwestiynau canlynol. Yna, fel gweithgaredd ar gyfer y dosbarth cyfan, gofynnir i bob grŵp roi adborth o'u herthyglau a'u trafodaethau.

**Cwestiynau i'w hystyried**

1. Beth sydd wedi digwydd?
2. Beth oedd y canlyniadau ar gyfer y rhai a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad?
3. Beth yw'r canlyniadau posibl ar gyfer teulu'r unigolyn?
4. Beth yw'r effaith bosibl ar y gymuned ehangach?
5. Pwy yw'r enillwyr a'r collwyr yn y drosedd hon, os oes rhai o gwbl?

Enghreifftiau o bwyntiau/pynciau trafod a allai godi:

- Cysylltiadau â throseddu trefnedig h.y. cyffuriau, arfau, ecsbloetiaeth, terfysgaeth
- Effaith ar fusnesau lleol – gostyngiad mewn masnach
- Teuluoedd troseddol yn ffynnu mewn cymunedau
- Materion amgylcheddol h.y. sbwriel
- Effaith ar wasanaethau plismona ac iechyd
- Refeniw coll – colled i'r gymuned drwy fethiant i dalu treth
- Dangosir meysydd eraill o droseddolrwydd i'r ifainc a'r rhai sy'n agored i niwed
- Ystyriwch pwy yw'r dioddefwyr yn y cyswllt ehangach
- Gallai pobl ifainc gael eu hannog i ddechrau ysmygu


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023